CELG(4) PS 05

# Ymchwiliad i Lefelau Cyfranogiad mewn Chwaraeon yng Nghymru

31 Mai 2013

WLGA • CLlLC

# RHAGARWEINIAD

1. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn cynrychioli'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, a'r tri awdurdod parc cenedlaethol, y tri awdurdod tân ac achub ac mae pedwar awdurdod heddlu'n aelodau cyswllt.

2. Ei nod yw cynrychioli awdurdodau lleol o fewn fframwaith polisi newydd sy'n bodloni blaenoriaethau allweddol ein haelodau ac mae'n darparu ystod eang o wasanaethau sy'n ychwanegu gwerth at Lywodraethau Lleol Cymru a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

3. Mae CLlLC yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymchwiliad yn ymwneud â lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon yng Nghymru. Wrth ddrafftio'r ymateb hwn, mae CLlLC wedi gweithio mewn partneriaeth â'r Prif Swyddogion Diwylliant a Hamdden yng Nghymru.

4. Mae Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn ymrwymedig i gynnig chwaraeon a gweithgarwch corfforol er ei fwyn ei hun ac er mwyn y buddion sylweddol y mae hynny'n ei roi i'w dinasyddion drwy gydlyniant cymunedol, iechyd a lles, datblygiad economaidd a safonau addysg. Maent yn darparu ystod eang o gyfleusterau yn amrywio o neuaddau chwaraeon, pyllau nofio, caeau chwarae, traciau athletau ac ati.

5. Mae partneriaeth waith agos rhwng CLlLC, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru o ran cyflwyno'r Rhaglen Llywodraeth, Creu Cymru Egnïol a'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru. Mae pob un o'r partneriaid yn cydnabod yn ddigwestiwn, heb gydweithredu parod, y byddai lleihad sylweddol o ran y cyfleoedd a ddarperir a gostyngiad o ran cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Cafodd y gydberthynas waith hon ei datblygu a daeth yn fwy ffurfiol yn 2012-2013 drwy gydweithio a symbylwyd gan Adolygiad Simpson.

6. Cytunwyd gan y partneriaid y dylai defnyddio cerdyn sgorio Atebolrwydd ar Sail Canlyniadau a rhannu arfer gorau fod yn sail i gydweithio yn benodol rhwng awdurdodau lleol a Chwaraeon Cymru.

7. Mae'r Prif Swyddogion Diwylliant a Hamdden yng Nghymru wedi creu cerdyn sgorio cenedlaethol gyda Chwaraeon Cymru a CLlLC sy'n sicrhau bod partïon perthnasol yn

"unedig o ran canlyniadau cyffredin" yn enwedig o ran yr effaith ar lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon.

8. Yn tanategu'r cerdyn sgorio cenedlaethol, mae pedwar cerdyn sgorio rhanbarthol yn cael eu datblygu yng Nghymru, de-ddwyrain Cymru, canol de Cymru, gogledd Cymru, y canolbarth a'r gorllewin. Mae gan bob awdurdod lleol gerdyn sgorio sy'n tanategu'r blaenoriaethau rhanbarthol.

9. Ynghyd â CLlLC a'r Prif Swyddogion Diwylliant a Hamdden yng Nghymru, mae Chwaraeon Cymru wedi datblygu ffordd newydd ymlaen ar gyfer y fethodoleg y bydd Chwaraeon Cymru yn ei defnyddio yn y dyfodol i fuddsoddi mewn awdurdodau lleol ac maent wrthi'n ei rhoi ar brawf a bydd y fethodoleg yn golygu bod awdurdodau lleol yn fwy atebol am godi safonau a chyfraddau cyfranogiad.

10. O ystyried y cyfyngiadau ariannol anodd iawn ar hyn o bryd, bu awdurdodau lleol yn dod o hyd i fodelau cyflwyno mwy effeithlon ac effeithiol ar gyfer eu gwasanaethau chwaraeon a hamdden. Mae rhai ohonynt e.e. Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen wedi allffynonellu eu gwasanaeth hamdden i gontractwr allanol, ymddiriedolaeth allanol ac ymddiriedolaeth fewnol ar hyd braich. Mae Castell-nedd Port Talbot wedi gweithredu gydag ymddiriedolaeth fewnol ar hyd braich er 1996. Ar ôl cynnal arfarniadau manwl o ddewisiadau, mae awdurdodau lleol eraill wedi penderfynu mai parhau â gwasanaeth mewnol yw'r ffordd orau o symud ymlaen iddynt hwy tra bod awdurdodau lleol eraill ar ganol eu harfarniadau dewisiadau manwl ar hyd o bryd a byddant yn gwneud eu penderfyniadau ar eu mecanwaith cyflwyno ffafriedig cyn bo hir. Mewn ymhob achos, nid ffactorau ariannol yn unig fu'r ffactor pennaf o ran penderfyniadau awdurdodau lleol ond yn hytrach, mae effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, cysondeb, ansawdd, cyfleusterau gwell, cyfleoedd gwell ar gyfer chwaraeon wedi bod yn ganolog i'w hystyriaethau a'u penderfyniadau.

11. Caiff lefel y cyfranogi ei fesur drwy ddangosyddion lleol ac arolygon cenedlaethol a rhestrir y prif rai o'r rhain isod:-

- Arolwg Iechyd Cymru
- Arolwg Oedolion Egnïol **(Chwaraeon Cymru)**
- Arolwg Pobl Ifanc Egnïol **(Chwaraeon Cymru)**
- Arolwg Chwaraeon Ysgol **(Chwaraeon Cymru)**
- Cytundeb Partneriaeth Awdurdod Lleol **(Chwaraeon Cymru)**
- Uned Data Cymru

Y cyfyng-gyngor o ran amseru'r ymchwiliad yw nad oes data o'r arolygon hyn ar gael ar gyfer 2012/13 a dim ond yn yr hydref y bydd ar gael.
Yr arwyddion o ddata awdurdodau lleol sydd eto i'w gymeradwyo yw bod cynnydd cyffredinol o ran cyfranogiad mewn chwaraeon ledled Cymru.

12. Mewn perthynas â data datblygu ysgolion, caiff ei roi i uned ymchwil Chwaraeon Cymru yn rhan o gytundeb y Bartneriaeth Awdurdod Lleol. Mae'r data hwn yn ymwneud ag amlder cyfranogi, dadansoddi yn ôl oedran a rhyw. Mae'r data hwn yn cael ei gwblhau ar gyfer 2012/13 a dylai fod ar gael maes o law.

13. Caiff llawer o'r rhaglenni mewn awdurdodau lleol i ddatblygu chwaraeon yng Nghymru eu cynnal mewn partneriaeth â Chwaraeon Cymru neu'n benodol â chyrff llywodraethu e.e. Campau'r Ddraig, 5x60, antur awyr agored, nofio'n rhad ac am ddim, Chwaraeon Anabledd Cymru, Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion, Cynlluniau Datblygu Lleol.

14. Mae enghreifftiau ardderchog ar draws pob un o'r awdurdodau lleol yng Nghymru yn ymwneud â sut mae cyfleoedd i gyfranogi mewn chwaraeon wedi'u creu a sut mae rhwystrau sy'n bodoli ar gyfer grwpiau gwahanol o bobl wedi'u dileu, gan gynnwys yn ôl maes cydraddoldeb a grwpiau economaidd-gymdeithasol.

15. Mae pob awdurdod lleol yn gweithio mewn partneriaeth â chwaraeon anabledd i greu cyfleoedd i gyfranogi mewn chwaraeon drwy'r model chwaraeon. Mae'r model yn annog integreiddio pobl ag anableddau mewn chwaraeon prif ffrwd a chyfleoedd i bobl ag ystod eang o anableddau ddod at ei gilydd i gystadlu mewn timau neu fel unigolion. Mae nofio'n enghraifft ardderchog ac mae clybiau ar gyfer cyfranogwyr anabl sy'n gysylltiedig â chlybiau nofio prif ffrwd ar gael lle mae unigolion ag anabledd yn cyfranogi hefyd.

16. Mae awdurdodau lleol yn ymwybodol iawn o'r angen iddynt gynnal asesiadau o effaith cydraddoldeb fel rhan o'u prosesau rhaglennu cyfleusterau a chyfleoedd. Ymhlith yr enghreifftiau ardderchog o awdurdodau lleol yn ymateb i'w cyfrifoldeb i sicrhau bod rhwystrau sy'n gysylltiedig â thlodi wedi cael eu dileu a bod hynny'n parhau i ddigwydd yn gysylltiedig â pholisïau prisio gostyngol a gyflwynir mewn ffordd sensitif yn cynnig gostyngiadau sylweddol ar gyfer tocynnau teuluol a'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau, e.e. mae cerdyn Arctif a MAX Cyngor Dinas Caerdydd yn cynnig gostyngiad

o 50% oddi ar bob gweithgaredd hamdden i'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau a thrwy gyfranogi marchnata wedi'i dargedu, cynyddodd lefelau 24% yn 2012/13.

17. Enghraifft ardderchog o gysylltiad clir rhwng mentrau Llywodraeth Cymru i gynyddu gweithgarwch corfforol sydd wedi bod yn uniongyrchol fanteisiol i Chwaraeon yng Nghymru yw'r Fenter Nofio am Ddim ar gyfer y rhai o dan 16 oed. Er ei bod wedi'i lansio yn y lle cyntaf fel menter blas ar nofio, mae wedi datblygu o annog cyfranogiad ar lefel uwch i elfen o weithgarwch mwy strwythuredig yn targedu'r rhai nad ydynt yn nofio ac sy'n derbyn prydau ysgol am ddim lle na allai eu rhieni fforddio gwersi nofio yn eu pwll nofio lleol. Mae'r plant ynghyd â'r rhai sy'n mynd i'r sesiwn nofio am ddim yn gysylltiedig â'r awdurdod lleol a chorff llywodraethu nofio yng Nghymru, y cynllun Nofio Cenedlaethol, a'r llwybr gweithgareddau dŵr lle mae cynnydd yn nifer nofwyr y clwb ac a ddylai arwain at fwy o nofwyr o'r radd flaenaf yn y dyfodol. Mae plant hefyd yn cael cyfleoedd i ddilyn gweithgareddau dyfrol eraill, e.e. syrffio, hwylio a gweithgareddau tan ddŵr na allant fod wedi manteisio arnynt heb y cyfle i gael blas ar nofio yn gyntaf, cyn y sesiynau dysgu strwythuredig. Mae'r i'r rhaglen benodol hon gysylltiadau cryf â'r cwricwlwm Cyfnod Allweddol 2 lle mae disgwyl i blant nofio 25 metr erbyn troi'n 11 oed. Mae'r Prif Swyddogion Diwylliant a Hamdden yng Nghymru wedi gwneud nofio'n darged canlyniad allweddol y dylai pob plentyn allu nofio erbyn troi'n 11 oed ac mae'r canlyniadau yn ddiweddar yn sgil defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru, targedu adnoddau a rhannu arfer gorau wedi sicrhau newidiadau uchelgeisiol a sylweddol o ran y nifer targed o blant sy'n gallu nofio.

18. Bydd canlyniadau arolwg chwaraeon ysgol Chwaraeon Cymru yn darparu gwybodaeth werthfawr am y cynnydd mewn cyfraddau aelodaeth a lefelau cyfranogiad y clwb o ganlyniad i effaith a gwaith etifeddiaeth y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd.
Mae tystiolaeth eglur gan awdurdodau lleol y bu effaith yn enwedig drwy gyllid grant Cronfa Gymunedol Chwaraeon Cymru ar gyfer prosiectau etifeddiaeth y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd.

*E.e. Cyngor Sir Penfro*

- 59 o wirfoddolwyr newydd eu hyfforddi
- 8 tîm iau newydd
- 2 dîm hŷn newydd
- 255 o aelodau iau newydd o ran chwaraeon cymunedol
- 52 o aelodau hŷn newydd o ran clybiau chwaraeon cymunedol
- 23 o sesiynau ychwanegol yr wythnos

*E.e. Cyngor Dinas Caerdydd*

- Rhaglen Etifeddiaeth Olympaidd – Ar y Ffordd i Rio
- Lansiodd Cyngor Caerdydd ei raglen Etifeddiaeth ym mis Chwefror 2013, ac mae iddi dri llinyn etifeddiaeth. Caiff pob llinyn ei arwain gan y partner sector perthnasol fel y'u rhestrir isod:
    1. Chwaraeon/Gweithgarwch Corfforol - Hamdden
    2. Iechyd (yn cynnwys Deiet a Maeth) – Iechyd Cyhoeddus Cymru
    3. Diwylliannol – Datblygu'r Celfyddydau

- Cynorthwyodd cysylltu'r cynllun â'r Fenter Nofio am Ddim ar gyfer y grŵp 16 oed ac iau i gynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau strwythuredig Nofio am Ddim 50% o gymharu â 2011/12.
- Bu cynnydd 20% mewn aelodaeth glwb yn y 19 o chwaraeon blaenoriaeth yng Nghaerdydd ers 2012-12.

19. Mae CLlLC yn ymddiheuro am ddiffyg perfformiad manwl mewn perthynas â chyfranogiad mewn chwaraeon yn yr adroddiad hwn. Fel yr esboniwyd yn gynharach yn yr ymateb, mae hyn yn uniongyrchol gysylltiedig ag amseru'r ymchwiliad a'r prif ffynonellau casglu data drwy arolwg Iechyd a Chwaraeon Cymru. Disgwylir i ragor o fanylion am gyfranogiad mewn awdurdodau lleol fod ar gael ar gam llafar yr ymchwiliad lle y bydd CLlLC yn fwy na pharod i roi rhagor o dystiolaeth.

**Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r canlynol:**

Peter Gomer
**peter.gomer@wlga.gov.uk**

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Tŷ Llywodraeth Leol
Drake walk
Caerdydd
CF10 4LG

Ffôn: 029 2046 8600